**EITEM AR YR AGENDA: 18**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**19eg Mawrth 2012**

## PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL

**Adroddiad gan Colin Everett, Clerc yr Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi gwybod i'r Aelodau fod Adroddiad Blynyddol y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi cael ei gyhoeddi. Mae'r adroddiad yn nodi newidiadau i daliadau i Aelodau a fydd yn dod i rym ar ddyddiad y cyfarfod blynyddol ar 18ain Mehefin. Mae crynodeb o'r newidiadau ynghlwm yn Atodiad 1, a bydd yn dod i rym ar ddyddiad y cyfarfod blynyddol ar 18ain Mehefin 2012.

## Y Cefndir

2 Ymestynnwyd cylch gwaith y Panel trwy Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. O dan y pwerau a ddarperir gan y Mesur mae'r Panel wedi llunio cyfres newydd o Reoliadau a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2012. Mae'r Rheoliadau'n gymwys i daliadau a wneir i aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau lleol, awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

3 Er mwyn casglu mwy o wybodaeth am Awdurdodau Tân ac Achub (ATAau), gwahoddwyd ATAau i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig am eu lwfansau i aelodau. Bu Aelodau'r Panel hefyd yn cwrdd â chynrychiolwyr o'r ATAau yng Nghymru. Yn dilyn y cyfarfodydd hyn, daeth y Panel i'r casgliad y dylai ATAau gael eu cynnwys yn fframwaith cenedlaethol y Panel yn 2012/13.

4 Bydd yr Aelodau'n cofio bod y Panel wedi cyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol drafft yng Ngorffennaf 2011, a hynny i ddiben ymgynghori. Roedd yr adroddiad drafft yn cynnwys penderfyniadau'r Panel ar ystod a lefel y lwfansau ar gyfer aelodau Awdurdodau Lleol, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, ac Awdurdodau Tân.

## Gwybodaeth

5 Fel y cytunwyd yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Hydref 2011, gwnaeth y Clerc sylwadau i'r Panel ynglŷn â'r adroddiad drafft. Ystyriwyd mai'r materion dadleuol oedd fel a ganlyn:

- mae'r cyfyngiad o 3 Lwfans Cyfrifoldeb Arbennig (LCA) yn rhy anhyblyg.
- mae'r cynnig na fydd aelod Gweithredol o awdurdod cyfansoddol bellach yn gymwys i gael lwfans ychwanegol neu LCA yn afresymol.
- p'un ai yw Awdurdodau Tân ac Achub yn dewis dyfanu LCA i'w His-Gadeirydd ai peidio, dylai hynny fod yn fater o ddewis lleol.

6 Yn dilyn ymgynghoriad, daeth y Panel i'r casgliad:

(i) Y dylid cysoni rôl aelodau cyffredin awdurdod tân ac achub â Chyflog Sylfaenol aelod o awdurdod lleol, ac y dylid ei dalu am ymrwymiad amser o 16 o ddiwrnodau'r flwyddyn.
(ii) Y dylid cysoni 'maint' (sef cwmpas, cylch gwaith a chyfrifoldeb) rôl Cadeirydd ag Uwch Gyflog deiliad swydd weithredol Band 3 mewn awdurdod lleol (hynny yw, â'r rhan honno o'r Uwch Gyflog Band 3 nad yw'n cynnwys Cyflog Sylfaenol aelod o awdurdod lleol).
(iii) Y dylid cysoni rôl dirprwy gadeirydd awdurdod tân ac achub, lle y ceir uwch gyfrifoldeb pendant a pharhaus, gydag Uwch Gyflog deiliad swydd weithredol Band 4 mewn awdurdod lleol (hynny yw, â'r rhan honno o'r Uwch gyflog Band 4 nad yw'n cynnwys Cyflog Sylfaenol aelod o awdurdod lleol).
(iv) Y dylid cysoni rôl cadeirydd pwyllgor mewn awdurdod tân ac achub gydag Uwch Gyflog deiliad swydd weithredol Band 4 mewn awdurdod lleol (hynny yw, â'r rhan honno o'r Uwch Gyflog Band 4 nad yw'n cynnwys Cyflog Sylfaenol aelod o awdurdod lleol).
(v) Fel gydag awdurdodau lleol, mae'r Panel o'r farn y dylai awdurdodau tân ac achub '*reoli mwy gyda llai*'. O ganlyniad, mae'r Panel wedi penderfynu nodi'r rolau ym mhob awdurdod tân ac achub y gellir talu Uwch Gyflogau iddynt fel yr amlinellir ym mharagraff 5.5.

7 Mae'r Panel hefyd wedi amodi:

- Na ddylai aelodau dderbyn mwy nag un Uwch Gyflog gan awdurdod tân ac achub.
- Telir Uwch Gyflog awdurdod tân ac achub sy'n cynnwys Cyflog Sylfaenol awdurdod tân ac achub.
- Ni all aelod o awdurdod lleol sy'n derbyn Uwch Gyflog Band 1 neu Band 2 dderbyn cyflog gan unrhyw awdurdod tân ac achub y mae wedi'i benodi iddo.

8 Yn ogystal â'r uwch gyflog sy'n daladwy i'r cadeirydd a'r dirprwy gadeirydd, mae dau opsiwn "uwch gyflog" ar gael i "gadeirydd prif bwyllgor" a "chadeirydd pwyllgor arall".

9 Mae Cadeirydd Awdurdod Tân Gogledd Cymru hefyd yn gadeirydd y Panel Gweithredol, ac ni all ond hawlio un cyflog. Er mwyn gwahaniaethau rhwng 'prif bwyllgor' a 'phwyllgor arall', argymhellir bod yr Aelodau'n seilio hyn ar nifer y cyfarfodydd a gynhelir bob blwyddyn. Mae'r Panel Gweithredol yn cyfarfod bum gwaith y flwyddyn, a'r Pwyllgor Archwilio yn cyfarfod 3 gwaith y flwyddyn. Felly, bydd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn cael ei dalu dan y categori "cadeirydd pwyllgor arall".

## Lwfansau Teithio, Cynhaliaeth a Gofal

10 Bydd yr Aelodau'n cofio trafod lwfansau milltiroedd a gofal yn y cyfarfod ym mis Mehefin 2011, a phleidleisio o blaid cadw'r lwfans milltiroedd ar 40c y filltir a thalu lwfans gofal o hyd at £100 y mis.

11 Mae'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi amodi y gall Aelodau hawlio lwfans gofal o hyd at £403 y mis, ac y dylai ATAau dalu milltiroedd yn unol â chyfradd gyfredol Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, sef 45c y filltir.

12 Bydd y cyfraddau cynhaliaeth yn aros ar £28 y dydd – lwfans dydd am brydau, gan gynnwys brecwast os na ddarperir hynny o fewn y pris dros nos.

## Goblygiadau Ariannol

13 Yng ngoleuni Argymhellion y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol, bydd angen i'r Awdurdod gynyddu ei gyllideb ar gyfer cyflogau aelodau ryw £10,500 y flwyddyn.

## Argymhellion

14 Gofynnir i'r Aelodau nodi y bydd y canlynol yn dod i rym ar 18fed Mehefin 2012:

**Cyflogau**

(i) bydd cyfradd Cyflog Sylfaenol yn £1,350 y flwyddyn am yr ymrwymiad amser o 16 diwrnod y flwyddyn yn daladwy i aelodau heblaw cadeirydd a dirprwy gadeirydd yr Awdurdod a chadeirydd y Pwyllgor Archwilio;

(ii) bydd cadeirydd yr Awdurdod yn cael Uwch Gyflog ATA yng Nghymru, sydd wedi ei gysoni â chyflog Band 3 (£10,085);

(iii) bydd dirprwy gadeirydd yr Awdurdod yn cael uwch gyflog sy'n gyson â chyflog Band 4 (£5,095);

(iv) bydd cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn cael Uwch Gyflog sy'n £3,400.

**Aelodau Annibynnol**

(v) Bydd aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau yn cael ffi ddyddiol wedi ei gapio ar uchafswm o 4 diwrnod llawn y flwyddyn ar y raddfa ganlynol:

- Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, £256 o ffi ddyddiol (£128 am hanner diwrnod)
- Aelod annibynnol, £198 o ffi ddyddiol (£99 am hanner diwrnod);

**Lwfansau Teithio a Chynhaliaeth**

(vi) lwfans gofal hyd at uchafswm o £403 y mis;

(vii) cyfradd milltiroedd ar gyfradd o 45c y filltir yn unol â chyfraddau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi;

(viii) y cyfraddau cynhaliaeth yn aros eu heb eu newid.

Atodiad 1

## Trosolwg o Argymhellion y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol

### 1. Lwfansau Aelodau Awdurdodau Tân

| Rôl | Lwfans Presennol ATAGC | Lwfans a Gynigir gan y Panel | Amrywiad |
|---|---|---|---|
| **Aelod Cyffredin** | £1,142.76 | £1,350 | Cynnydd o £207.24 |
| **Cadeirydd yr Awdurdod Tân** | £9,743.64 + £1,142.76 Cyfanswm £10,886.40 | £10,085 (Band 3) | Gostyngiad o £801.40 |
| | | | |
| **Is-/Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod Tân** | £7,488.60 + £1,142.76 Cyfanswm £8,631.36 | £5,095 | Gostyngiad o £3,536.36 |
| **Cadeirydd Prif Bwyllgor (Ddim yn berthnasol i ATAGC)** | Dim lwfans penodol yn daladwy am fod yn gadeirydd pwyllgor. Derbyn lwfans aelod sylfaenol yn unig, sef £1,142.76 | £5,095 | Cynnydd £3,952.24 |
| **Cadeirydd pwyllgor arall** | Dim lwfans penodol yn daladwy am fod yn gadeirydd. Derbyn lwfans aelod sylfaenol yn unig, sef £1,142.76 | £3,400 | Cynnydd £2,257.24 |

**DS**

- Ni all aelodau dderbyn mwy nag un cyflog
- Mae cyflog sylfaenol ATA yn gynwysedig o fewn uwch gyflog ATA
- Ni all aelod o awdurdod lleol sydd hefyd yn ddeiliad swydd weithredol ar y cyngor gael cydnabyddiaeth ariannol ychwanegol fel aelod cyffredin neu uwch o ATA. Byddai hyn yn golygu na fyddai Aelodau mwyach yn derbyn unrhyw gyflog o gwbl am gyflawni eu dyletswyddau cyhoeddus yn yr ATA.
- Dim ond 3 ‘uwch’ gyflog sy’n daladwy, e.e. Cadeirydd, Is-gadeirydd a Chadeirydd Prif Bwyllgor; neu Gadeirydd, Cadeirydd Prif Bwyllgor neu Gadeirydd Pwyllgor arall

**2. Pwyllgor Safonau**

| Rôl | Lwfans Presennol ATAGC | Lwfans a Gynigir gan y Panel | Amrywiad |
|---|---|---|---|
| **Cadeirydd Pwyllgor Safonau** | £362.50 y flwyddyn | £256 ffi ddyddiol (£128 am hanner diwrnod) | Yn seiliedig ar gyfartaledd* o 2 x cyfarfod o'r Pwyllgor Safonau y flwyddyn, byddai hyn yn gynnydd o £149.50 |
| **Aelod Cyffredin/Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau** | £190 y flwyddyn | £198 ffi ddyddiol (£99 am hanner diwrnod) | Yn seiliedig ar gyfartaledd* o 2 x cyfarfod o'r Pwyllgor Safonau bob blwyddyn, byddai hyn yn gynnydd o £206.00 |
| **DS – Caiff y taliadau hyn eu capio ar uchafswm o 4 diwrnod llawn y flwyddyn ar gyfer aelod unigol cyfetholedig**<br>*** Presenoldeb ar gyfartaledd – cyfrifwyd yn seiliedig ar 2 x cyfarfod hanner diwrnod o'r Pwyllgor Safonau, a diwrnod llawn i adlewyrchu hyfforddiant/ mynychu cynadleddau = cyfartaledd o 2 ddiwrnod llawn** | | | |

**3. Ad-dalu Treuliau Gofal, Teithio a Chynhaliaeth**

**3.1 Lwfansau Gofal**

| Rôl | Lwfans Presennol ATAGC | Lwfans a Gynigir gan y Panel | Amrywiad |
|---|---|---|---|
| **Aelod Cyffredin** | £100 y mis (uchafswm) | Uchafswm o £403 y mis | Cynnydd o £303 |
| **Cadeirydd yr Awdurdod Tân** | £100 y mis (uchafswm) | Uchafswm o £403 y mis | Cynnydd o £303 |
| **Is-/Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod Tân** | £100 y mis (uchafswm) | Uchafswm o £403 y mis | Cynnydd o £303 |
| **Aelod Cyffredin/Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau** | £100 y mis (uchafswm) | Uchafswm o £403 y mis | Cynnydd o £303 |

**4. Lwfans Teithio**

| ATAGC | Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth | Amrywiad |
|---|---|---|
| **Car** | **Car** | |
| Lwfans Milltiroedd 40c y filltir (fel y cytunwyd yng Nghyfarfod Blynyddol yr ATA, Mehefin 2011) | Cyfraddau cyfredol Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi: | Cynnydd o 5c y filltir - hyd at 10,000 o filltiroedd |
| | 45c y filltir – hyd at 10,000 o filltiroedd | |
| | 25c y filltir – hyd at 10,000 o filltiroedd | Gostyngiad o 20c y filltir dros 10,000 o filltiroedd |
| | 5c y filltir am bob teithiwr – atodiad teithiwr | |
| | 24c y filltir – beiciau modur preifat | |
| | 20c y filltir – beiciau | |

**5. Lwfans Cynhaliaeth**

| ATAGC | Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth | Amrywiad |
|---|---|---|
| **Cynhaliaeth** | **Cynhaliaeth** | |
| Lwfans Dydd: | Lwfans Dydd: | Dim, ac eithrio £25 yn benodol am aros dros nos gyda theulu a chyfeillion |
| £28 dros gyfnod o 24 awr (gyda chyfyngiadau amser) | £28 y dydd | |
| Lwfans Dros Nos: | Lwfans Dros Nos: | |
| £150 – Dros nos yn Llundain | £150 – Dros nos yn Llundain | |
| £120 – Dros nos yng Nghaerdydd | £120 - Dros nos yng Nghaerdydd | |
| £95 – pob lleoliad arall | £95 - pob lleoliad arall | |
| | £25 – arhosiad dros nos gyda theulu a chyfeillion | |

Sylwer – Gall ATAau barhau i godi tâl ar aelodau unigol a chyfetholedig am gynhaliaeth lle bo lluniaeth yn cael ei ddarparu gan yr awdurdod mewn cyfarfodydd

Sylwer – lle bo'n bosib, yr ATA ei hun ddylai drefnu a thalu am lety dros nos.